Senedd Cymru
**Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion**

# Ymweliad ag Ysgol Hafod Lon

## A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

28 Medi 2023

Cynhaliwyd yr ymweliad ymgysylltu ag Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth ddydd Iau 28 Medi 2023.

Cymerodd y Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr a dysgwyr yr ysgol ran yn yr ymweliad ymgysylltu.

Cynhaliwyd yr ymweliad fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i fynediad at addysg i blant a phobl ifanc anabl.

# Nodiadau

**1.** Ceir crynodeb o’r ymweliad ymgysylltu yn y ddogfen hon i amlinellu’r themâu allweddol a drafodwyd fel rhan o’r ymchwiliad.

**Y Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr**

## Addysg gynhwysol

**2.** Ysgol brif ffrwd fyddai'r opsiwn gorau i rai dysgwyr; mae'n dibynnu ar yr ysgol brif ffrwd ac anghenion pob dysgwr unigol.

**3.** Mae gan yr ysgol ganran eithaf uchel o drefniadau lleoli ar y cyd, gyda'r dysgwr yn mynychu ysgol gynradd ar rai dyddiau ac yn mynychu ysgol arbennig ar ddyddiau eraill.

> *“Trefniadau lleoli ar y cyd…maent yn gweithio i rai ohonyn nhw, maen nhw'n dod i adnabod eu cyfoedion yn eu cymuned eu hunain, ac mae hynny'n dda iddyn nhw. Ond i eraill, mae'r rhan fwyaf o'u haddysg tra maen nhw yn y brif ffrwd naill ai yn y coridor neu mewn ystafell ochr neu yn y neuadd… Nid yw’n rhywbeth ystyrlon.”*

**4.** Gall rhai dysgwyr ddod yn or-ddibynnol ar eu cynorthwyydd addysgu tra’u bod yn yr ysgol brif ffrwd. Gall hyn fod yn rhwystr i ddod yn ddysgwyr annibynnol.

**5.** Mae gan yr ysgol berthynas waith dda gyda rhai o'r ysgolion prif ffrwd lleol. Mewn rhai achosion, mae’n gosod targedau ar gyfer y dysgwr yn yr ysgol brif ffrwd ac yn gallu cefnogi'r ysgol brif ffrwd trwy anfon gwaith i'w gwblhau yn yr ysgol.

**6.** Mewn rhai ysgolion prif ffrwd, gall fod yn rhoi sylw dyledus i ddosbarth cyfan, efallai 30 o ddysgwyr ac unigolion ag anghenion dysgu arbennig, fod yn beth heriol.

**7.** Mae angen rhywbeth rhwng addysg brif ffrwd ac addysg arbennig. Mae rhai dysgwyr lle nad yw ysgol arbennig yn addas iddynt ond lle nad yw ysgol brif ffrwd yn diwallu eu hanghenion ychwaith.

**8.** Ceir enghreifftiau o ddysgwyr deallus, rhai ohonynt ar y sbectrwm awtistig, nad ydynt wedi gallu cyflawni'r cymwysterau y dylent oherwydd nad ydynt wedi bod mewn amgylchedd addas i gael eu haddysgu.

> *"Maen nhw wedi treulio'u holl amser yn yr ysgol uwchradd mewn ystafell ar wahân, oherwydd nad ydynt yn gallu ymdopi â mynd i'r ystafell ddosbarth prif ffrwd...mae angen gwneud llawer mwy o ran hyfforddiant ynghylch anghenion prosesu synhwyraidd."*

**9.** Mae mynediad i addysg bellach yn broblem fawr i bobl ifanc anabl. Ceir diffyg cyfleoedd addas ac mae angen opsiynau llwybr gyrfa hygyrch.

## Cludiant

**10.** Y cyngor sy'n gyfrifol am y trefniadau teithio ond mae'r ysgol yn wynebu llawer o broblemau dyddiol, er enghraifft tacsis yn cyrraedd yn hwyr.

**11.** Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn teithio i'r ysgol mewn tacsi. Mae problemau pan fydd dysgwyr ag anghenion gwahanol yn teithio gyda'i gilydd.

**12.** Mae llawer o ddysgwyr yn teithio'n bell i'r ysgol – rhai hyd at awr a hanner, un ffordd.

**13.** Mae problemau cludiant yn effeithio ar weithgareddau y tu allan i'r ysgol a'r gofal cofleidiol y gall yr ysgol ei gynnig. Mae'r nifer sy'n manteisio ar gynnig o'r fath yn isel iawn, oherwydd mai'r rhieni fyddai'n gyfrifol am y cludiant. Mae hyn yn golygu nad oes cyfle cyfartal i blant a phobl ifanc anabl.

**14.** Un ateb posibl fyddai caniatáu i'r cynorthwywyr addysgu gymryd cyfrifoldeb am y gofal cofleidiol. Byddai hyn yn helpu gyda'u cyflog hefyd, pe baent yn dod yn weithwyr cyswllt llawn amser.

**15.** Gallai'r cynorthwywyr addysgu hefyd gymryd cyfrifoldeb am gludiant uniongyrchol rhwng yr ysgol a'r cartref, pe bai cyllid ar gael.

**16.** Mae'r ysgol yn ymwybodol bod y dysgwyr yn flinedig iawn erbyn diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r awr ychwanegol bob dydd yn profi'n heriol iawn i rai o'r dysgwyr.

**17.** Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau meddwlgarwch ac yn defnyddio'r ystafell adlamu (ystafell drampolîn) ar ddiwedd pob diwrnod ysgol.

> *"Mae'n rhaid i mi gyfaddef bod 99 y cant  o'n disgyblion yn barod i fynd adref [ar ddiwedd y diwrnod ysgol]. Maen nhw wedi blino, wedi gor-gyffroi...mae rhai ohonyn nhw mewn tacsi erbyn 7.30am."*

## Ystâd a chapasiti'r ysgol

**18.** Agorodd yr ysgol yn 2016 fel adeilad newydd a gafodd arian gan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**19.** Mae capasiti i 100 o ddysgwyr yn yr ysgol. Roedd yr ysgol dros y capasiti o fewn 18 mis.

**20.** Mae gan yr ysgol 120 o ddysgwyr ar hyn o bryd ac mae'r ffigurau'n cynyddu drwy'r amser.

**21.** Mae nifer y dysgwyr ar y sbectrwm awtistig yn cynyddu bob blwyddyn ac mae eu hanghenion yn dod yn fwyfwy cymhleth a difrifol.

## Ymddygiad y disgyblion

### Technoleg

**22.** Mae technoleg yn cael effaith fawr ar ymddygiad dysgwyr.

> *"Mae ein rhai ifanc ni yn fabanod i-pad.....nid ydynt wedi arfer ag ymdrin â phobl. Mae'n llythrennol yn fater o guddio TG yn y Cyfnod Sylfaen a cheisio eu cael i ryngweithio ag oedolyn neu unrhyw beth nad yw'n i-pad."*

### Gweithgareddau y tu allan i'r ysgol

**23.** Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, er enghraifft clybiau chwaraeon, yn heriol i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd, yn enwedig yn y fath ardal wledig.

**24.** Mae'r ysgol yn rhannu cyfleoedd, clybiau posibl ac ati y tu allan i'r ysgol gyda rhieni a gwarcheidwaid bob wythnos, a hynny drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

> *"Mae'n rhaid i chi gydymdeimlo â'r rhieni. Pan fydd gennych blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol a bod y plentyn yn cael yr amgylchedd yn heriol, mae mynd â nhw i fwyty neu fynd i siopa neu i unrhyw le yn brofiad anodd. Gall fod yn anodd iawn...mae pobl yn syllu pan fyddan nhw'n dechrau crio. Mae rhieni'n teimlo embaras, felly beth maen nhw'n ei wneud? Maen nhw'n aros o fewn eu pedair wal ac yna nid yw'r plant yn cael y cyfleoedd."*

**25.** Mae'r ysgol yn blaenoriaethu dysgu yn yr awyr agored eleni, gan nad yw llawer o ddysgwyr wedi arfer â'r awyr agored.

**26.** Er bod y nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig yn isel, mae'r gwrthwyneb yn wir am weithgareddau o'r fath i oedolion. Efallai bod hyn oherwydd bod ganddynt weithwyr cymorth i fynd â nhw i'r gweithgareddau.

**Ymddygiad**

**27.** Mae ymddygiad dysgwyr yn dod yn fwyfwy o broblem yn yr ysgol ac yn cael effaith fawr ar iechyd meddwl a llesiant.

**28.** Mae'r ysgol yn cyflogi dau therapydd dadansoddi ymddygiad cymhwysol cynorthwyol a dau therapydd dadansoddi ymddygiad a ardystiwyd gan fwrdd i ddatblygu cynlluniau ymddygiad cadarnhaol ar gyfer rhai o'r dysgwyr.

**Bwlio**

**29.** Mae bwlio ar-lein yn broblem sy'n anodd iawn i ysgolion ymdrin â hi. Gall yr ysgol rannu ffeithiau a rhoi cyngor, er enghraifft, sut i flocio pobl ar ddyfeisiau, ond mae'r cyngor y gallant ei roi yn gyfyngedig oherwydd gallu llawer o'r dysgwyr.

## Y berthynas â'r rhieni

**30.** Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol iawn â'r rhieni. Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â'r rhieni, ac yn defnyddio'r ap seesaw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am eu plentyn yn ddyddiol.

**31.** Nid yw'r ysgol wedi cael unrhyw gwynion gan rieni ers blynyddoedd lawer.

## Materion ynghylch y gweithlu

### Effaith lefelau staffio

**32.** Staffio yw un o’r problemau mwyaf sy’n wynebu’r ysgol ar hyn o bryd. Er enghraifft, o blith 60 aelod o staff, mae 14 ohonynt ar gyfartaledd yn absennol yn ddyddiol. Mae hyn yn rhannol oherwydd cynnydd mewn achosion o Covid-19.

**33.** Oherwydd y cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr unigol, mae lefelau staffio isel yn risg iechyd a diogelwch mewn ysgol arbennig, o bosibl yn wahanol i ysgol brif ffrwd.

**34.** Mae galw mawr am staff cyflenwi ac mae’r cyflenwad yn brin iawn; mae'r ysgol yn aml yn gorfod dibynnu ar athrawon newydd gymhwyso a chynorthwywyr addysgu. Gall hyn fod yn heriol i staff addysgu a dysgwyr fel ei gilydd.

**35.** O ganlyniad i lefelau staffio, mae’n rhaid i’r ysgol gau ystafelloedd dosbarth yn rhannol neu amrywio presenoldeb, er enghraifft, gyda hanner y dosbarth yn mynychu yn rhan gyntaf yr wythnos a’r hanner arall yn mynychu yn ail ran yr wythnos.

**36.** Mae dysgu ar-lein hefyd yn opsiwn, ond gall fod yn heriol iawn i rai o'r dysgwyr cymhleth.

**37.** Mae’r canllawiau ar gyfer aelodau o staff sy’n agored i niwed yn amwys ac nid yw’r brechlyn Covid-19 yn cael ei gynnig i staff fel mater o drefn mwyach.

**38.** Mae'r pennaeth yn gorfod blaenoriaethu materion staffio dyddiol yn hytrach na materion strategol.

### Cynorthwywyr addysgu

**39.** Mae'n anodd iawn recriwtio cynorthwywyr addysgu o'r safon ofynnol; er enghraifft, ar hyn o bryd mae gan yr ysgol dair swydd wag ar gyfer cynorthwywyr addysgu nad ydynt wedi gallu eu recriwtio oherwydd safon yr ymgeiswyr.

**40.** Un o'r prif rwystrau i recriwtio cynorthwywyr addysgu yw'r cyflog a gynigir. Mae rhai cynorthwywyr addysgu yn gadael y proffesiwn i weithio mewn lleoedd fel canolfannau galwadau neu gyda’r cyngor lleol lle maent yn ennill cyflog uwch gydag amodau gwaith gwell, er enghraifft oriau hyblyg a gallu gweithio gartref.

**41.** Mae cynorthwywyr dysgu mewn ysgolion arbennig yn cael yr un cyflog â chynorthwywyr addysgu mewn ysgolion prif ffrwd, ond mae natur a dwyster y

gwaith yn wahanol iawn a gellir dadlau ei fod yn llawer mwy heriol. Am y rheswm hwn, mae'n ofynnol i'r cynorthwywyr addysgu fod wedi'u hyfforddi'n drylwyr ar gyfer y swydd. Caiff hyn ei weld fel rhwystr o ran denu ymgeiswyr.

**42.** Gellir dweud yr un peth am ysgolion arbennig eraill ledled Cymru hefyd. Dangosodd ystadegau diweddar fod 140 o swyddi gwag cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion arbennig ledled Cymru.

> *"£1,200 yw'r tâl y mae cynorthwyydd addysgu yn ei gymryd adref.....ar ôl dioddef poeri, brathu, tynnu gwallt, cicio, yn ddyddiol. Mae'n rhaid iddyn nhw ofalu am anghenion iechyd...bwydo drwy diwbiau bwydo, gorfod rhoi meddyginiaeth, yn ogystal â gofal personol, mynd i'r toiled, codi i fyny.....mae'r holl gyfrifoldeb ar eu hysgwyddau ac mae'r Llywodraeth yn disgwyl iddyn nhw gael ail swydd."*

**43.** Mae'r pennaeth wedi bod i ffeiriau gyrfaoedd gyda'r hwyr ac ar benwythnosau i geisio recriwtio cynorthwywyr addysgu.

> *"Yn y sector gofal, yn gyffredinol, naill ai menywod neu bobl o dramor sy'n cymryd diddordeb.".*

**44.** Mae llawer o'r bobl o dramor yn barod iawn i ddysgu Cymraeg.

**45.** Mae recriwtio cynorthwywyr addysgu gwrywaidd yn fwy fyth o her. Mae dau gynorthwyydd addysgu gwrywaidd yn yr ysgol, o blith 52 o gynorthwywyr addysgu

**Cymorth gan gyrff allanol**

**46.** Prin iawn yw'r cymorth a gaiff yr ysgol gan gyrff allanol. Er enghraifft, nid oes therapydd lleferydd yn yr ysgol ac anaml y daw therapyddion galwedigaethol i'r ysgol. Daw ffisiotherapyddion i'r ysgol yn rheolaidd.

**47.** Y broblem yn eithaf aml yw recriwtio arbenigwyr Cymraeg eu hiaith a di-Gymraeg fel ei gilydd.

**48.** Nid oes unrhyw arbenigwyr anhwylderau prosesu synhwyraidd hyfforddedig yn y sir, er bod nifer gynyddol o ddysgwyr ag anawsterau ac anhwylderau prosesu synhwyraidd.

**49.** Bu'n rhaid i'r ysgol brynu dalu am arbenigwr anhwylderau prosesu synhwyraidd o Loegr i gynghori a hyfforddi staff ysgol ar ddeiet synhwyraidd i blant.

**50.** Ceir nifer o swyddi gwag seicolegwyr addysg yn y sir.

## Dysgwyr yr ysgol

Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf am ddod i'r ysgol?

- Yr ystafell drampolîn
- Pwll hydro
- Bwyd da
- Ffrindiau gwych
- Staff cyfeillgar
- Gwaith ysgol
- Profiad gwaith yn Hafan Sêr (canolfan seibiant ar y safle) – er enghraifft, dysgu sut i goginio

Sut ydych chi'n cyrraedd yr ysgol bob dydd?

- Tacsi – taith 45 munud

Ydych chi'n meddwl bod yr holl ddisgyblion yn cael eu trin yn yr un ffordd?

- Ydym, rydym i gyd yn ffrindiau yma
- Mae hwn yn barth dim bwlio
- Nid oes yr un ohonom yn cael defnyddio ein ffonau symudol yn yr ysgol

Pe baech yn gallu newid un peth am yr ysgol, beth fyddai hwnnw?

- Campfa
- Astro turf ar y cae pêl-droed

Beth arall hoffech chi ei gael yn lleol?

- Cyfleusterau pêl-fasged cadair olwyn o fewn cyrraedd
- Clwb drama
- Clwb celf